# Polisi Oedolion Mewn Perygl

<table>
<tr><td>Crynodeb o'r polisi:</td><td colspan="4">Diben y ddogfen hon yw amlinellu ymateb yr heddlu i oedolion mewn perygl.</td></tr>
<tr><td>Rhif y polisi:</td><td colspan="4">003/2021</td></tr>
<tr><td>Rheoli fersiynau:</td><td colspan="4"><table>
<tr><th>Fersiwn</th><th>Dyddiad</th><th>Awdur</th><th>Rhesymwaith</th></tr>
<tr><td>1</td><td>Chwefror 2021</td><td>[redacted]</td><td>Polisi newydd yn unol â deddfwriaeth newydd a newidiadau o fewn y sefydliad.</td></tr>
<tr><td></td><td></td><td></td><td></td></tr>
</table></td></tr>
<tr><td>Dyddiad gweithredu:</td><td colspan="4">01/02/2021</td></tr>
<tr><td>Dyddiad adolygu:</td><td colspan="4">Blwyddyn o'r dyddiad cyhoeddi.</td></tr>
<tr><td>Perchennog/ cyswllt:<br>(wedi'i gymeradwyo gan – y Bwrdd)</td><td colspan="4">CID – Y Ganolfan Fregusrwydd</td></tr>
<tr><td>Ymgynghori a chymeradwyo</td><td colspan="4">Y Ditectif Uwch-arolygydd [redacted]<br><br>Y Ditectif Brif Arolygydd [redacted]</td></tr>
<tr><td>Cyfieithiad Cymraeg</td><td>Oes</td><td>✓</td><td>Nac Oes</td><td></td></tr>
</table>

# 1. Datganiad Polisi

Bydd Heddlu Dyfed-Powys yn rhoi ystyriaeth arbennig i'r aelodau hynny o gymdeithas a allai gael eu diffinio fel oedolyn mewn perygl; sy'n 18 oed neu hŷn, sydd angen gwasanaethau gofal cymunedol, neu a allai fod eu hangen, oherwydd iechyd meddwl neu anabledd arall, oed neu salwch; ac sy'n methu, neu sydd o bosibl yn methu, gofalu am eu hunain, neu sy'n methu amddiffyn eu hunain rhag niwed neu gamfanteisio ac a allai fod yn agored i gam-drin.

Gall cam-drin gynnwys un weithred neu sawl gweithred, gall fod yn gorfforol, yn eiriol neu'n seicolegol, yn weithred o esgeulustod neu fethiant i weithredu, neu lle y mae unigolyn sy'n agored i niwed yn cael ei berswadio i ymrwymo i drafodyn ariannol neu rywiol nad yw'r unigolyn hwnnw wedi caniatáu iddo neu'n medru caniatáu iddo.

Ni fydd Heddlu Dyfed-Powys yn dioddef cam-drin dioddefwyr sy'n agored i niwed, ac er mwyn adnabod, atal neu ymchwilio i gam-drin, byddwn yn gweithio yn unol â gweithdrefnau amlasiantaeth byrddau diogelu lleol.

***Mae'n berthnasol ar gyfer y canlynol (ond heb fod yn gyfyngedig i hynny):*** *Holl gategorïau gweithwyr Heddlu Dyfed-Powys, pa un ai a ydynt yn staff llawn amser, rhan amser, parhaol, cyfnod penodol, dros dro (gan gynnwys staff asiantaeth, cymdeithion a chontractwyr) neu'n staff sydd ar secondiad. Rhaid i unrhyw weithiwr sy'n cael gafael ar asedau ac eiddo'r Heddlu a'u defnyddio roi ystyriaeth ddyledus i gynnwys y polisi hwn.*

# 2. Cwmpas y Polisi

'Oedolyn mewn perygl' yw oedolyn:

- sydd yn profi, neu sydd mewn perygl o brofi, cam-drin neu esgeulustod;
- sydd ag anghenion gofal a chymorth (hyd yn oed os nad yw'r awdurdod yn bodloni'r anghenion hynny); ac
- sy'n methu amddiffyn ei hun yn erbyn y cam-drin/esgeulustod neu'r perygl ohono o ganlyniad i'r anghenion hynny.

Mae'r canllawiau statudol yn dweud bod cynnwys 'mewn perygl' yn galluogi ymyrraeth gynnar i amddiffyn oedolyn mewn perygl. Nid oes angen bod cam-drin neu esgeulustod wedi digwydd er mwyn gweithredu.

Isod, ceir enghreifftiau ar gyfer pob un o'r categorïau cam-drin ac esgeulustod, er nad yw hon yn rhestr gynhwysfawr:

- Cam-drin corfforol – bwrw, taro, camddefnyddio neu orddefnyddio meddyginiaeth, ffrwyno diangen neu sancsiynau amhriodol.
- Cam-drin rhywiol – trais ac ymosodiad rhywiol neu weithredoedd rhywiol nad yw'r oedolyn agored i niwed wedi caniatáu iddo neu nad oedd yn medru caniatáu iddo a/neu y rhoddwyd pwysau arno i ganiatáu iddo.
- Cam-drin seicolegol – bygythiadau o niwed neu adawiad, rheolaeth drwy orfodaeth, cywilyddio, cam-drin hiliol neu eiriol, ynysu neu gilio rhag gwasanaethau neu rwydweithiau cefnogol; gweithred neu batrwm o ymosodiadau, bygythiadau, cywilyddio, dychrynu neu fath arall o gam-drin a ddefnyddir i niweidio, cosbi neu ddychryn y dioddefydd yw rheolaeth drwy orfodaeth.
- Mae esgeulustod yn fath o gam-drin lle mae'r troseddwr yn gyfrifol am ddarparu gofal ar gyfer rhywun sy'n methu â gofalu am ei hun, ond sydd ddim yn darparu'r gofal hwnnw – naill ai mae'n methu â darparu unrhyw ofal o gwbl, neu mae'n amlwg nad yw'r gofal o safon ddigonol ar gyfer bodloni anghenion yr unigolyn. O'r herwydd, gall esgeulustod fod yn fwriadol, neu gall ddigwydd o ganlyniad i fethu â deall beth yw anghenion rhywun.
- Cam-drin ariannol, gan gynnwys lladrad, twyll, twyllo ar y rhyngrwyd, gorfodaeth mewn perthynas â materion neu drefniadau ariannol oedolyn, gan gynnwys mewn cysylltiad ag ewyllysiau, eiddo, etifeddiaeth neu drafodion ariannol, neu'r camddefnydd o adeiladau, eiddo neu fudd-daliadau.
- Cam-drin sefydliadol, gan gynnwys esgeulustod ac arfer gofal gwael o fewn sefydliad neu osodiad gofal penodol megis ysbyty neu gartref gofal, er enghraifft, neu mewn perthynas â gofal a ddarperir yng nghartref yr unigolyn. Gall hyn amrywio o ddigwyddiadau untro i driniaeth wael barhaus. Gall fod drwy esgeulustod neu arfer proffesiynol gwael o ganlyniad i strwythurau, polisïau, prosesau ac arferion mewn sefydliad.
- Camfanteisio yw camdriniaeth, triniaeth neu gam-drin pŵer a rheolaeth dros unigolyn arall. Cymryd mantais o sefyllfa neu unigolyn arall ydyw fel arfer, ond nid bob tro, er budd personol.

- Priodas dan orfod yw pan rydych chi'n wynebu pwysau corfforol i briodi (er enghraifft, bygythiadau, trais corfforol neu drais rhywiol) neu bwysau seicolegol ac emosiynol (e.e. os ydych chi'n cael eich gwneud i deimlo'ch bod chi'n dwyn gwarth ar eich teulu).
- Llafur gorfodol dan orfod yw caethwasiaeth modern e.e. adeiladu, amaethyddiaeth a chaethwasanaeth domestig (e.e. dyletswyddau gwas o fewn preswylfa breifat am gyflog isel neu ddim tâl o gwbl).
- Masnachu mewn pobl yw recriwtio, hwyluso, cludo a derbyn pobl â golwg ar gamfanteisio arnynt (e.e. drygioni masnachol/camfanteisio rhywiol preifat), camfanteisio llafur (e.e. dioddefwyr yn ymgymryd â gwaith corfforol ar gyfer grwpiau troseddu teithiol), camfanteisio troseddol (e.e. twyll budd-daliadau a banc, pigo pocedi, lladradau olew, troseddau carreg drws), neu gynaeafu organau (e.e. tynnu a gwerthu organau / meinwe dynol am resymau masnachol).
- Defnyddir Troseddu Mewnfudo Trefnedig i ddisgrifio hwyluso mynediad a phresenoldeb anghyfreithlon yn y wlad. Mae'n cynnwys masnachu mewn pobl, cymryd rhan mewn ffugio dogfennau, priodas ffug neu gamddefnyddio Fisa.

Mae 4 ffordd y gellir adrodd am oedolyn mewn perygl wrth yr heddlu, sef:

- Adroddiad dros y ffôn i Ganolfan Gyfathrebu'r Heddlu;
- Adrodd wrth Swyddog Ymholiadau Cyhoeddus mewn gorsaf;
- Tîm Plismona Bro/Ymateb ar batrôl;
- Ffurflen Gyfeirio Amlasiantaeth neu adroddiad/cyfeiriad cyfwerth gan asiantaeth bartner.

Mae'r holl adroddiadau hyn yn cael eu hasesu ar gyfer risg gan ddefnyddio'r asesiad risg THRIVE a dylid adolygu camau diogelu'n gyson. Os oes unrhyw ansicrwydd ynghylch yr ymateb gofynnol, dylid ceisio gyngor gan yr Uned Gyfeirio Ganolog neu Oruchwylydd. Dylid ymdrin ag adroddiadau sydd angen camau diogelu brys drwy ymateb ac yna dylid cyflwyno ffurflen gyfeirio amlasiantaeth i rannu'r wybodaeth hon â'r gwasanaethau cymdeithasol a allai geisio cymorth asiantaethau partner er mwyn mynd i'r afael â diogelu hirdymor yr unigolyn sydd mewn perygl.

Gall methu â diogelu arwain at rywun yn profi cam-drin gwirioneddol neu gam-drin pellach.

# 3. Pwerau a Gofynion Cyfreithiol/Polisi

Mae diogelu'n fusnes i bawb. Gall unrhyw oedolyn gael ei gam-drin unrhyw le, ac mae cyfrifoldeb ar bawb ohonom i ymateb iddo, yn ein gwaith a thu allan i'r gwaith.

Nid oes gwahaniaeth pa un ai a yw'r awdurdod lleol yn darparu gwasanaethau neu gymorth i'r unigolyn dan sylw ai peidio, na pha un ai a yw anghenion yr unigolyn yn bodloni'r meini prawf ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol. Os ydynt yn profi, neu mewn perygl o brofi, cam-drin neu esgeulustod, ac yn methu ag amddiffyn eu hun oherwydd bod ganddynt anghenion gofal cymdeithasol neu iechyd, mae dyletswydd arnom i adrodd amdano wrth yr awdurdod lleol er mwyn iddynt gynnal eu hymholiadau a/neu eu hasesiad eu hun. Os amheuir trosedd, byddwn ni'n ymchwilio. Tra bod ymchwiliad yr heddlu'n derbyn blaenoriaeth dros ymholiadau eraill, rhaid cytuno ar ymagwedd amlasiantaeth hefyd er mwyn sicrhau bod holl fuddiannau a safbwyntiau'r unigolyn yn cael eu hystyried a bod cynllun priodol yn cael ei gytuno a'i weithredu.

Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn nodi'r rolau a chyfrifoldebau hanfodol ar gyfer ymarferwyr er mwyn sicrhau eu bod nhw'n diogelu plant ac oedolion sydd mewn perygl o gam-drin ac esgeulustod. Maen nhw hefyd yn helpu ymarferwyr (ni) i weithredu'r ddeddfwriaeth a chanllawiau statudol o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles 2014 (Cymru). Y nod yw gwella canlyniadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar gyfer oedolion sydd mewn perygl o gam-drin ac esgeulustod a phlant mewn perygl.

Rhaid cofnodi unrhyw drosedd neu ddigwyddiad a ddatgelir i'r heddlu'n briodol. Rhaid cofnodi trosedd a brofwyd yn unol â Rheolau Cyfrif y Swyddfa Gartref gan ddefnyddio'r System Rheoli Troseddau. Bydd unrhyw ddigwyddiad nad yw'n drosedd yn cael ei gofnodi ar STORM ac mae angen i swyddog sy'n ymdrin â'r digwyddiad ei ddiweddaru. Mae hyn er mwyn sicrhau bod modd adnabod unrhyw ddigwyddiadau pellach yn hawdd a bod modd tynnu sylw asiantaethau partner atynt.

Mae Datgeliad Heddlu Cyfraith Gwlad yn sicrhau y bydd yr heddlu'n cyflwyno gwybodaeth i'r cyflogwr neu'r corff rheoleiddiol pan mae perygl o ran diogelu'r cyhoedd er mwyn eu galluogi i weithredu'n gyflym a rhoi mesurau mewn grym i liniaru unrhyw berygl. Mae DHCG yn disodli'r Cynllun Swyddi Hysbysadwy ac yn canolbwyntio ar ddarparu gwybodaeth berthnasol ac amserol a allai nodi perygl i ddiogelwch y cyhoedd. Cyflwynir gwybodaeth adeg cyhuddiad neu arést yn hytrach

nag ar ôl euogfarn, a allai fod cryn amser wedi hynny. Mae'r cynllun hwn yn darparu trefniadau diogelu cadarn ac yn sicrhau mai dim ond gwybodaeth berthnasol sy'n cael ei rhoi i gyflogwyr. Mae'r cynllun yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng buddiannau'r unigolyn a phwysigrwydd diogelu'r cyhoedd.

Mae Heddlu Dyfed-Powys yn bartner sefydliadol y bwrdd diogelu rhanbarthol ac fe gynorthwyodd â datblygiad y 'Protocol Rhannu Gwybodaeth ar gyfer Diogelu Plant, Pobl Ifainc ac Oedolion Agored i Niwed'. Cynhyrchwyd y ddogfen hon ar y cyd ag arweinwyr gwasanaethau diogelu, gan gynnwys ein Ditectif Uwch-arolygydd ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd, ac mae'r darpariaethau canlynol, sy'n berthnasol i oedolion, wedi'u hystyried:

- Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data y DU;
- Deddf Diogelu Data 2018;
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles 2014;
- Gweithdrefnau Diogelu Cymru;
- Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2015;
- Deddf Trosedd ac Anrhefn 1998;
- Deddf Grwpiau Diogelu Pobl sy'n Agored i Niwed 2006.

Mae'r Protocol Rhannu Gwybodaeth hwn yn rhoi hyder i staff o bob sefydliad partner rannu gwybodaeth berthnasol pan mai'r diben yw amddiffyn neu atal plant, pobl ifainc ac oedolion sy'n agored i niwed rhag profi cam-drin neu fathau eraill o niwed, a bod rhannu'r wybodaeth hon yn gyfreithlon heb ganiatâd yr unigolion dan sylw.

## ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

Mae Rhan 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn nodi'r **nodweddion gwarchodedig** sy'n gymwys i'w diogelu dan y Ddeddf, sef: Oed; Anabledd; Ailbennu Rhywedd; Priodas a Phartneriaeth Sifil; Beichiogrwydd a Mamolaeth; Hil; Crefydd neu Gred; Rhywedd; Cyfeiriadedd Rhywiol.

Mae **dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus** yn gosod gofyniad cyfreithiol rhagweithiol ar gyrff cyhoeddus i roi ystyriaeth, wrth arfer eu swyddogaethau, i'r angen i:

- ddileu camwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall sy'n anghyfreithlon dan y Ddeddf;
- hybu cyfle cyfartal rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn ei rhannu;
- hybu perthynas dda rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac unigolion nad ydynt yn ei rhannu.

Mae'r ddyletswydd cydraddoldeb yn berthnasol i'r holl nodweddion gwarchodedig ac eithrio Priodas a Phartneriaeth Sifil, ac yn yr achos hwnnw dim ond y ddyletswydd i ystyried yr angen i ddileu camwahaniaethu sy'n berthnasol.

Er mwyn cynnal **asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb** rhaid mynd ati'n systematig i asesu effeithiau tebygol neu wirioneddol polisi ar bobl o safbwynt yr holl nodweddion gwarchodedig a nodir uchod.

Dylid cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer pob polisi sy'n **berthnasol** i ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Mae templed ar gyfer asesiad o effaith ar gydraddoldeb ar gael yma. Mae fersiwn Saesneg o'r asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb hefyd ar gael yma. Ceir canllawiau ar gyfer cwblhau'r templed ar dudalen fewnrwyd yr adran amrywiaeth.

| **Cwblhawyd Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb** | |
|---|---|
| **Enw:** | [redacted] |
| **Adran:** | CID – Y Ganolfan Fregusrwydd |
| **Llofnod:** | [redacted] |
| **Dyddiad:** | 19/01/2021 |

**DEDDF HAWLIAU DYNOL**

**TYSTYSGRIF CYDYMFFURFIAETH**

Cafodd y polisi hwn ei ddrafftio yn unol â'r Ddeddf Hawliau Dynol a'i adolygu ar sail ei gynnwys a'r dystiolaeth ategol, ac ystyrir ei fod yn cydymffurfio â'r Ddeddf honno a'r egwyddorion sy'n sail iddi.

| | |
|---|---|
| **Enw:** | [redacted] |
| **Adran:** | Gwasanaethau Cyfreithiol |
| **Llofnod:** | [redacted] |
| **Dyddiad:** | 27.01.2021 |

# 4. Dewisiadau a Chynlluniau Wrth Gefn

Mae'r polisi hwn yn eiddo i Uned Amddiffyn Pobl Fregus CID.

Bydd yn cael ei adolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau ei effeithiolrwydd a gwneud diwygiadau mewn perthynas â newidiadau a diweddariadau mewn canllawiau a deddfwriaethau cysylltiedig.

Bydd y Ditectif Uwch-arolygydd Amddiffyn Pobl Fregus a'r Grŵp Bregusrwydd Strategol yn gwneud penderfyniadau cymeradwyo mewn perthynas â gweithredu'r polisi hwn.

Creffir ar gofnodion yr heddlu'n rheolaidd, ac fe'u harchwilir yn rheolaidd, er mwyn sicrhau bod Heddlu Dyfed-Powys wedi gweithredu'n unol â hynny er mwyn ymchwilio, diogelu a cheisio cymorth ar gyfer pobl fregus pan fod angen.

Mae'r egwyddorion Cod Moeseg yn berthnasol:

- Atebolrwydd – Byddwn yn atebol am benderfyniadau, gweithredoedd ac esgeulustod mewn perthynas â gweithredu'r polisi hwn.
- Tegwch – Bydd y polisi hwn yn cael ei weithredu, ni waeth am hil, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, anabledd neu ryw.

- Gonestrwydd – Byddwn yn gweithredu cynnwys y polisi hwn â gonestrwydd er mwyn cynnal ffydd y gymuned yr ydym yn ei gwasanaethu.
- Unplygrwydd – Byddwn yn gweithredu'r polisi hwn gan sicrhau ein bod ni'n anelu i wneud ein gorau glas dros aelodau mwy bregus ein cymunedau.
- Gwrthrychedd – Bydd gweithredu'r polisi hwn yn seiliedig ar dystiolaeth a barn broffesiynol orau.
- Didwylledd – Byddwn yn agored a thryloyw yn ein gweithredoedd a'n penderfyniadau.
- Parch – Byddwn yn trin pob aelod o'r gymuned â pharch ac yn cynnal yr urddas.
- Anhunanoldeb – Byddwn yn gweithredu'n anhunanol er budd y cyhoedd.

**COD MOESEG**

**TYSTYSGRIF CYDYMFFURFIO**

Mae'r polisi hwn wedi'i ddrafftio yn unol â'r Cod Moeseg ac wedi'i adolygu ar sail ei gynnwys a'r dystiolaeth ategol ac ystyrir ei fod yn cydymffurfio a'r Cod hwn a'r egwyddorion sy'n ei danategu.

| | |
|---|---|
| **Enw:** | [redacted] |
| **Adran:** | CID – Y Ganolfan Fregusrwydd |
| **Llofnod:** | [redacted] |
| **Dyddiad:** | 19/01/2021 |

# 5. Gweithredu ac adolygu

Cynhelir adolygiadau ac archwiliadau rheolaidd o gofnodion digwyddiadau, cofnodion a phenderfyniadau er mwyn sicrhau ein bod ni'n cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaethau a chanllawiau a restrir yn adran 3 y ddogfen hon. Rhoddir adroddiadau o'r archwiliadau hyn i'r Grŵp Bregusrwydd Strategol, a fydd yn adolygu canfyddiadau ac yn gwneud argymhellion ar gyfer meysydd sydd angen gwella.

Mae'r Ditectif Uwch-arolygydd hefyd yn eistedd ar fwrdd gweithredol ein Bwrdd Diogelu Rhanbarthol - CYSUR/CWMPAS. Mae'r bwrdd diogelu'n gyfrifol am gydlynu'r cyfeiriad strategol, cydweithio, cysondeb a gwelliant arferion ar draws y rhanbarth. Yn ogystal, cynhelir cyfarfodydd Grŵp Sefydliadol Lleol ym mhob rhanbarth er mwyn cydlynu arferion lleol, a gweithio tuag at sicrhau effeithiolrwydd trefniadau lleol i ddiogelu a hyrwyddo lles oedolion, plant a phobl ifainc mewn perygl. Trafodir meysydd arfer da a meysydd sydd angen eu gwella hefyd o fewn y fforwm hwn ar sail amlasiantaeth.

Yn unol â Rheoliadau Byrddau Diogelu (Swyddogaethau a Gwelliannau) (Cymru) 2015, mae gan Fyrddau Diogelu Oedolion Rhanbarthol gyfrifoldeb statudol i ymgymryd ag Adolygiadau Arferion Oedolion amlasiantaeth mewn amgylchiadau digwyddiad arwyddocaol lle mae cam-drin neu esgeulustod yn hysbys neu'n cael ei amau. Prif ddiben adolygiadau arferion yw nodi unrhyw gamau y gall partneriaid y Bwrdd Diogelu neu gyrff eraill eu cymryd er mwyn cyflawni gwelliannau mewn arferion amddiffyn oedolion amlasiantaeth.

**Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000**

Yn unol â Rhan 19 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 mae'n ofynnol i'r Heddlu gyhoeddi ei holl bolisïau ar wefan yr Heddlu. Polisïau sy'n dangos pam yr ydym yn gwneud pethau a gweithdrefnau sy'n dangos sut yr ydym yn eu gwneud. Rhaid cynnal adolygiad o'r gweithdrefnau fesul achos er mwyn diogelu ystyriaethau'n ymwneud â gorfodi'r gyfraith ac iechyd a diogelwch. Os cynhyrchir dogfen sy'n cyfuno polisi a gweithdrefnau, mae'n ofynnol o dan y gyfraith i'r Heddlu gyhoeddi'r polisi ac asesu'r rhan sy'n ymwneud â'r gweithdrefnau i sicrhau na chaiff unrhyw wybodaeth sensitif ei chyhoeddi. Yn gyffredinol, fel sefyllfa ddiofyn, cynhyrchir polisi a dogfen weithdrefn ar wahân.

Mae'n ofynnol felly i adolygu'r ddogfen hon er mwyn cadarnhau ei bod yn addas i'w chyhoeddi. Noder isod p'un ai yw'r ddogfen yn addas i'w chyhoeddi yn ei chyfanrwydd ai peidio. Os credir y gallai datgelu fod yn niweidiol, disgrifiwch y niwed y byddai'r cyhoeddi'n ei achosi gan amlygu'r rhannau perthnasol yn y ddogfen. Os tybir y gallai datgelu fod yn niweidiol dylid anfon y ddogfen i'r Uned Rhyddid Gwybodaeth i'w hadolygu.

**Addasrwydd ar gyfer cyhoeddi**

| **Addas i'w chyhoeddi** | **Ydyw/Nac ydyw** | **Dyddiad** | **Llofnod** |
|---|---|---|---|
| Dogfen yn addas i'w chyhoeddi yn ei chyfanrwydd | ✓ | 21/01/2021 | [redacted] |
| Dogfen yn addas i'w chyhoeddi'n rhannol. Rwyf wedi amlygu'r rhannau y credaf nad ydynt yn addas i'w datgelu ac wedi disgrifio isod y niwed y byddai cyhoeddi yn ei achosi. | | | |
| **Niwed – mewn cyhoeddi** | | | |

**Adolygiad Rhyddid Gwybodaeth – i'w gwblhau gan yr Uned Ddatgelu**
(Dim ond os yw'r awdur yn credu bod niwed mewn cyhoeddi)

| **Addas i'w chyhoeddi** | **Ydyw/Nac ydyw** | **Dyddiad** | **Penderfynwr Rhyddid Gwybodaeth** |
|---|---|---|---|
| Dogfen yn addas i'w chyhoeddi yn ei chyfanrwydd | | | |
| Dogfen yn addas i'w cyhoeddi yn rhannol a gwnaed golygiadau perthnasol. Crëwyd fersiwn sy'n addas ar gyfer y cyhoedd. | | | |
| Ar ôl cwblhau'r adolygiad dylai'r penderfynwr Rhyddid Gwybodaeth ddychwelyd y ddogfen i awdur y polisi, ac ar ôl ei chymeradwyo a'i llofnodi, dylid ei chyhoeddi o fewn Cynllun Cyhoeddi'r Heddlu. Dylai unrhyw newidiadau pellach i'r ddogfen gael eu dwyn i sylw'r Uned Rhyddid Gwybodaeth, fel y bo'n addas. | | | |